**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 11 Ionawr, 2024**

**Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 yh**

**<u>Presennol:</u>**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Rhys Jones (Is-Gadeirydd)

Catherine Hughes

Phil Roberts

Nia M Jones

Wynne Davies

Gareth Roberts

Tesni Jones

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**<u>Ymddiheuriadau</u>**
Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Einir Lewis, Cynghorydd Dafydd Ll Williams, a'r Cynghorydd Sirol Anwen Davies.

**<u>Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd</u>**
Cadarnhawyd bod cofnodion 14/12/23 yn gywir gan y Cynghorydd Phil Roberts ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Wynne Davies.

Nid oedd materion newydd yn codi.

**<u>Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy</u>**
Trafodwyd y Cynllun Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy.

Cytunodd WD i friffio DLW ar y materion ariannol a drafodwyd yn ystod y cyfarfod, sef yr arian grant £72,000 a hefyd y TAW. Gofynwyd y cwestiwn a fyddai modd i Bwyllgor y Cae Chwarae fynd yn "VAT registered". Bu i Tesni a Rhys gytuno y byddai'n syniad gwadd DLW i'w cyfarfod.

Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chlerc Cyngor Tref Nefyn i'w holi o ran materion ariannol Cae Chwarae Morfa Nefyn a Cae Chwarae Edern, ermwyn gweld os

oedd unrhyw daliadau wedi cael gwenud drwy gyfrif banc y Cyngor Tref i ariannu'r cynlluniau yma.

Gofynnwyd i Gyngor Cymuned Buan pe byddent yn fodlon talu am yswiriant y cae chwarae. Bu i ni drafod y cwestiynau ychwanegol a dderbyniwyd gan Zurich. Cytunwyd i'r Clerc yrru'r ymatebion yn ôl iddynt, er mwyn gweithio allan pris newydd i ni.

Derbyniwyd pris Ken Jones o £1,880.00 am y slab goncrid. HW i gysylltu gyda Ken Jones pan byddwn yn barod i gychwyn ar y gwaith.

**Gohebiaeth**

Cytunwyd i dalu dwy anfoneb i Archwilio Cymru :
Ffioedd Archwilio Cymru 2021/2022 – Anfoneb ARINV/010052 £320.00
Ffioedd Archwilio Cymru 2022/2023 – Anfoneb ARINV/010123 £220.00

Cytunwyd i'r Cyngor roi cyfraniad ariannol o £250 tuag at Glwb Ffermwyr Ieuainc Godre'r Eifl.

**Cais Cynllunio**

Nid oedd yr un cais cynllunio y tro hwn.

Bu i'r Cadeirydd dderbyn galwad gan AD ynglyn a cheisiadau Cynllunio oedd wedi eu cael eu rhoi o dan Gyngor Cymuned Llannor yn hytrach na Buan. Y tri eiddo oedd Bryn Moelyn, Tyddyn Llwydyn a Tai Hirion. Eglurodd y Cadeirydd bod y ffinoedd wedi newid yn ôl yn 2009, ac felly roedd Tai Hirion yn disgyn o dan Blwyf Buan a Tyddyn Llwydyn a Bryn Moelyn o dan Blwyf Llannor.

Gofynwyd i'r Clerc checio bod y sylwadau rydym yn eu cyflwyno ar geisiadau cynllunio yn cael eu lleoli ar y Portal Cynllunio.

**Materion ariannol**

Cysoniad banc o ddyddiad:

04/11/23 – 03/12/23 - £3,129.96c
04/12/23 – 03/01/24 - £2,975.27c

Cafodd 11 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Phil Roberts.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200769 | Cylch Meithrin Pentreuchaf | £100.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200770 | Radio Ysbyty Gwynedd | £50.00 |
| Siec Rhif 200771 | Urdd Gobaith Cymru | £50.00 |
| Siec Rhif 200772 | Cyllid a Thollau | £27.80 |
| Siec Rhif 200773 | Cyflog y Clerc | £111.99 |
| Siec Rhif 200774 | Llyfr Stampiau | £6.00 |
| Siec Rhif 200775 | Costau Teithio'r Clerc | £6.30 |
| Siec Rhif 200776 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yn Twnti | £20.00 |
| Siec Rhif 200777 | Archwilio Cymru – Ffi 2021/2022 | £320.00 |
| Siec Rhif 200778 | Archwilio Cymru – Ffi 2022/2023 | £220.00 |
| Siec Rhif 200779 | Clwb Ffermwyr Ieuanc Godre'r Eifl | £250.00 |

**Praesept 2024/2025**

Trafodwyd Praesept 2024/2025, a cytunwyd i'w godi i £4,500.00.
Cytunodd y Clerc i ddychwelyd y gwaith papur 12/01/24 i'r Adran Gyllid.

**Unrhyw fater arall**

Cytunwyd i'r Clerc ddilyn i fyny'r mater o dderbyn swm ariannol blynyddol gan Lord Newborough – Rhug Estate.

**Cyflog y Clerc (eitem caeedig)**

Bu i'r Cynghorwyr drafod cyflog y clerc. Cytunwyd i godi'r cyflog i £16 yr awr, a chytunwyd i lunio cytundeb newydd 11/01/24. Cytunwyd i adolgygu'r sefyllfa yng nghyfarfod Mis Gorffennaf 2024.

Derbyniwyd cwyn ynghlyn a ysbwriel ail-gylchu yn fflio allan o'r lori, wrth i gasgliadau gael eu gwneud. Mae'r mater yn digwydd yn rheolaidd ar y ffordd o Graenfryn i fyny i Meillionen (Ceidio), ac yn ar hyd lôn Bron Heulog. Clerc i nodi'r gwyn hefo Haydn Jones, Adran Ail-gylchu - Cyngor Gwynedd.

Nodwyd bod dau gynghorydd wedi derbyn 4 o gwynion gan aelodau'r cyhoedd, ynghlyn a sied sydd wedi cael ei chodi yn Yr Ynys, Boduan heb gais cynllunio. Nodwyd nad oes neb wedi gweld cais cynllunio yn cyfeirio at hyn.  Cytunwyd I'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Gynllunio.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 08/02/24 yn Tu Hwnt i'r Afon am 7.30yh.